Ask for/*Gofynnwch am* **Deborah Weston**
Our Ref/*Ein Cyf* **DW/CLHLRB**
Your Ref/*Eich Cyf*
Tel/*Ffôn* **01633 210631**
Direct Dial/*Rhif Union* **01633 210631**
DX
E-Mail/*E-Bost* school.reorg@newport.gov.uk

Education Service
Gwasanaeth Addysg

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

1 Ebrill 2019

Annwyl Randdeiliad

Cynnig i sefydlu dosbaeth Canolfan Adnoddau Dysgu cyffredinol â 10 o leoedd yn Ysgol Gynradd Caerleon Lodge Hill.

Mae'r broses ymgynghori statudol lawn bellach wedi dod i ben ar y cynnig hwn gan Gyngor Dinas Casnewydd i sefydlu dosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu cyffredinol â 10 o leoedd i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed gydag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Caerleon Lodge Hill o fis Ebrill 2019.

Rhoddodd Arweinydd y cyngor ystyriaeth i'r holl farnau a fynegwyd ac ymatebion a ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori statudol ac wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig. Felly, cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol ar 7 Ionawr 2019 am gyfnod o 28 diwrnod a ddaeTh i ben ar ddydd Llun 4 Chwefror 2019.

Ni ddaeth unrhyw wrthwynebiad i law yn ystod y cam statudol hwn ac felly gwnaethpwyd y penderfyniad terfynol gan Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'n bleser gennyf gadarnhau y caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r amlinelliad a nodwyd yn yr ymgynghoriad a'r hysbysiad statudol o fis Ebrill 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor. http://www.newport.gov.uk/en/Schools-Education/School-reorganisation/Establishment-of-LRB-at-Lodge-Hill-Primary-school.aspx

Yr eiddoch yn gywir



Sarah Morgan
Prif Swyddog Addysg
Chief Education Officer